# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 21 Medi 2022

Amser: 09.11 - 12.24

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12957

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS<br>Heledd Fychan AS<br>Sioned Williams AS |
| Tystion: | Ian Morgan, CBAC<br>Elaine Carlile, CBAC<br>David Jones, CBAC<br>Philip Blaker, Cymwysterau Cymru<br>Jo Richards, Cymwysterau Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Hughes (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Absenoldeb disgyblion - Trafod yr adroddiad drafft

1.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad drafft. Byddai'n cael ei ddiwygio i adlewyrchu sylwadau'r Aelodau a'i ystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

2.2 Nododd y Cadeirydd y byddai Heledd Fychan AS yn dirprwyo ar ran Sioned Williams AS ar gyfer eitemau 1,6 a 7.

## 3 Cyfres arholiadau haf 2022 - sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan CBAC a Chymwysterau Cymru.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 5 Cyfres arholiadau'r Haf 2022 - trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd yn y sesiwn graffu. Cytunodd i ysgrifennu er mwyn cael rhagor o wybodaeth am rai o'r materion a godwyd.

## 6 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Ysgolion

6.1 Bu’r Aelodau’n ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg i gael eglurhad ar rai meysydd. At hynny, cytunodd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

## 7 Plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal - trafodaeth bellach ynghylch cwmpas a dull gweithredu

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a dull y Pwyllgor o gynnal yr ymchwiliad. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gael rhagor o wybodaeth.

## 8 Absenoldeb disgyblion - Trafod yr adroddiad drafft